


## Tasg 2

# Ffrindiau da

Pa fath o bobl yw'r pedwar ffrind yn y stori?

1. Pa ansoddeiriau sy'n addas i ddisgrifio'r bobl hyn?  
Ysgrifennwch enw cymeriad wrth ochr 8 ansoddair addas.



Cymharwch eich syniadau chi – rhowch resymau dros eich syniadau.

Cofiwch, mae ansoddeiriau'n treiglo'n feddal ar ôl **yn**, e.e.

drwg: Mae John yn **dd**rwg.

cyfrwys: Mae John yn **gy**frwys.

barus: Mae John yn **f**arus.

Dydy ansoddeiriau sy'n dechrau gyda **ll** a **rh** ddim yn treiglo ar ôl **yn**, e.e.

llwfr: Mae John yn llwfr.

Mae Erin yn benderfynol oherwydd mae hi'n mynnu mynd i weld Yncl John ac mae hi'n dweud wrth ei ffrindiau beth ddylen nhw wneud.

2. Darllenwch y darn eto.

Edrychwch yn ofalus ar beth mae UN o'r cymeriadau'n ei **ddweud** a beth mae'n ei **wneud**.

Beth mae hyn yn ei ddangos am y cymeriad?

Gwnewch nodiadau yn y grid isod, e.e.:

|      | Beth mae'n ei ddweud / wneud?  | Beth mae hyn yn ei ddangos am y cymeriad?   |
|------|--|---|
| Matt | <ul style="list-style-type: none"><li>• Pan mae Yncl John yn cynnig mil o bun-nau, mae'n gofyn, "Ydy hynna'n wir?"</li><li>• Mae e'n fodlon dilyn y merched a derbyn yr arian.</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>• Dydy e ddim yn ymddiried mewn rhai pobl – mae'n eu hamau nhw. Mae e'n eitha craff felly.</li><li>• Mae e'n wan neu'n farus.</li></ul> |

| Enw | Beth mae'n ei ddweud / wneud? | Beth mae hyn yn ei ddangos am y cymeriad? |
|-----|-------------------------------|---|
|     |                               |   |

Dewiswch un o'r cymeriadau ac ysgrifennwch ddarn (nid pwyntiau bwled) i ddisgrifio'r cymeriad. Rhowch resymau ac enghreifftiau i gefnogi beth rydych chi'n ei ddweud.